

PENNOD 3: AROS YN NERFUS AM GANLYNIADAU

Betsan: Croeso i “Pa Opsiwn i Ti?”, y podlediad, os cofiwch chi’n iawn, aned er mwyn rhoi tipyn bach o gyngor ymarferol i deuluoedd sydd â phobl ifanc sy’n wynebu canlyniadau academiaidd allweddol iddyn nhw, mewn blwyddyn fwy ansicr nag mae’r un ohonon ni’n ei chofio. Ac yn sydyn iawn, y cwbl alla’i ddweud yw bod yr ansicrwydd hwnnw wedi tyfu eto fyth. Pan ddaethon ni ynghyd i sgwrsio am raddau TGAU yng Nghymru ar gyfer y bennod hon, roedd y stori am benderfyniad Llywodraeth yr Alban i ailystyried graddau miloedd o ddisgyblion yn cyniwair. Ac ers hynny, os oes eisiau eich atgoffa chi, mae’r penawdau ynglŷn â’r canlyniadau Lefel A a TGAU eleni, o un pen o’r DG i’r llall, wedi tyfu - sy’n golygu bod pobl ifanc fel Twm, oedd aros yn nerfus yn barod am ei ganlyniadau TGAU, yn mynd i fod yn teimlo’n fwy ansicr fyth. A rhwng corona, a’r cwbl ddaeth yn ei sgil, haf digon ansicr mae Twm wedi ei gael.

Twm: Mae wedi bod yn eithaf anodd, gan bod ni erioed wedi gorfod delio efo rhywbeth fel ‘ma o’r blaen... felly, mae wedi bod yn od. Od ydy’r gair gorau i ddisgrifio hi.

Betsan: Pan glywaist di’r newyddion yn wreiddiol, ar ôl tipyn bach o fwlch, na fyddet ti’n wynebu arholiadau, sut ymateb oedd ‘na?

Twm: I gychwyn, ro’n i’n hapus, gan ‘mod i wedi bod yn poeni lot am yr arholiadau; ond ar y funud, dwi’n ysu eisiau gwybod beth dwi wedi ei gael. Ond dwi’n ansicr hefyd, achos mae’n anodd rhagweld sut mae wedi mynd.

Betsan: Pam wyt ti’n teimlo’r ansicrwydd ‘na?

Twm: Oherwydd ‘sgen i ddim syniad sut fydda’i wedi gwneud. Llunedd pan o’n ni’n gwneud ychydig bach o arholiadau, roedd gen i ryw syniad o sut ro’n i wedi gwneud. Ond rŵan dwi’n teimlo ei bod hi’n anoddach, achos dwi ddim yn siŵr o ble maen nhw’n mynd i dynnu popeth.

Betsan: Wrth gwrs, os wyt ti wedi sefyll yr arholiadau dy hunan, mae gen ti ryw syniad sut mae pethau wedi mynd, a pha ateb aeth yn ddechre, a lle rwyf ti’n meddwl bo ti ‘di mynd i ddyfroedd dyfnion. Ond fel hyn, beth wyt ti’n ei ddeall ynglŷn â’r sefyllfa, a sut fydd y penderfyniadau am dy ganlyniadau di’n cael eu gwneud?

Twm: Dwi’n hynod ansicr efo sut maen nhw’n tynnu’r marciau, oherwydd mewn arholiad, ‘dach chi’n ateb cwestiwn, cael marc; lle dwi’n teimlo ei bod hi lot haws fel ‘na i wybod pa mor dda ‘dach chi wedi ei wneud yn yr arholiad. Ond rŵan, dwi’m yn siŵr os ydyn nhw’n cymryd pob un peth, neu os fydd yr athrawon angen dewis yn bersonol, ac efallai bydd ‘na ryw - o hynna. So, dwi bach yn nerfus, ac mae’r nerfusrwydd yn dod o hyn’na.

Betsan: Wrth gwrs, mae hynna’n eithaf naturiol, a dwi’n siŵr bo ti ddim ar dy ben dy hun o ran hynny. Wyt ti wedi bod yn rhyw feddwl ‘nôl i sut wyt ti wedi bod yn gwneud yn dy waith cartref yn ystod y flwyddyn... oedd ‘na brofion, oedd ‘na mocs... neu wyt ti’n un o’r rhain sy’n dueddol o swotio ar y funud olaf?

Twm: Dwi’n licio meddwl bo fi’n gwneud yn dda trwy’r flwyddyn i gyd, ond y prif beth dwi’n canolbwyntio arno ydy’r arholiad yn y diwedd, felly dwi ddim yn poeni os dwi angen amser ychwanegol i orffen gwneud rhywbeth. Dwi ddim yn poeni i ofyn am hyn’na, gan bo fi’n gwybod yn y pen draw, yr arholiad fysa’n cyfri. Ond gan bod pob dim wedi mynd o’i le, dwi’n teimlo fel bod hynna ddim wedi gweithio allan.

Betsan: Na, wrth gwrs. Felly, gad inni ddweud yn glir fel bod pobl yn deall, beth wyt ti'n dymuno ei wneud, pa ganlyniadau wyt ti angen eu cael cyn bo hir?

Twm: Dwi'n gobeithio cael eistedd Lefel A yn y blynyddoedd nesaf, drwy ddewis Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Mathemateg. Byswn i'n cael gwared ar un ar ôl y flwyddyn gyntaf, neu hyd yn oed yn gynharach. Ond dwi eisiau gwneud 3 o'r 4 yna.

Betsan: A beth yn y pen draw... ti 'di dewis cofled o waith gwyddonol a mathemategol... i ba bwrpas? Beth wyt ti eisiau ei wneud yn y pen draw?

Twm: Byswn i'n licio mynd i faes Meddygaeth neu rywbeth Biocemegol... ond mae dal digon o amser i ddewis.

Betsan: Cystadleuol, felly – ni'n gwybod cymaint â hynny, er bo ti ddim yn gwbl siŵr beth rwyf ti eisiau ei wneud, pa drywydd. Felly, beth fyddet ti, o agor amlen, os mai felly fydd hi cyn bo hir, beth wyt ti angen ei weld? A beth wyt ti'n gobeithio ei weld?

Twm: 'A' byswn i'n gobeithio ei weld. Llynedd, gan bo ni'n gwneud hanner Gwyddoniaeth yn y flwyddyn gyntaf, ges i 3 A* - felly gobeithio rhywbeth fel 'na. Fyswn i ddim yn poeni gymaint tasa fo'n gollwng lawr i 'A' – rhywbeth o amgylch hynna.

Betsan: Felly, os gei di'r canlyniadau hynny – ardderchog, a bydd y flwyddyn ddiwethaf 'ma'n teimlo fel rhywbeth rhyfedd ac "od" – i ddefnyddio dy air di, sydd wedi digwydd, ond byddi di'n bwrw 'mlaen. Ond os wyt ti'n brin, a gad inni groesi'n bysedd na fyddi di, beth wyt ti'n ei ddeall ynglŷn â'r system i gael apelio?

Twm: Dwi'n deall dim, i fod yn hollol onest. 'Sgen i ddim syniad beth fydd angen ei wneud. Dyna pam dwi'n meddwl 'mod i'n poeni gymaint – am 'mod i'n teimlo mai dim ond un siawns sydd i wneud pob dim, felly dwi angen ei wneud o'n iawn.

Betsan: A dyna beth sy'n dod drosodd fwyaf, Twm, yn y sgwrs, yw'r ansicrwydd yna – bod rhywun sy'n swnio fel disgybl sydd wedi bod ar ben ei waith, sy'n cynllunio, sy'n gwybod lle mae e arni'n gyffredinol drwy'r cyfnod, yn sydyn reit wedi wynebu cyfnod mor gyfan gwbl wahanol a llawn ansicrwydd.

Twm: Ydy, mae pob dim wedi mynd yn od.

Betsan: Od, poeni, ansicr – y geiriau oedd yn britho'r sgwrs gyda Twm. A thra gwrandewch chi ar ei fam, Rowenna Hughes-Jones, 'sdim angen aros yn rhy hir nes clywed yr un fath o eiriau ganddi hi.

Betsan: Felly Rowenna Hughes-Jones, diolch am ymuno efo ni... Beth am egluro i ddechrau – un fam i'r llall – sut haf yw hi wedi bod, i fod yn fam i ddau blentyn sy'n wynebu arholiadau? Ond falle Twm yn arbennig, gan bo ni wedi clywed gan Twm...

Rowenna: Dwi'n meddwl ei bod hi wedi bod yn gyfnod andros o ansicr. Wrth gwrs, 'dan ni'n cydnabod ein bod ni'n mynd trwy gyfnod na 'dan ni wedi ei weld o'r blaen, felly does 'na ddim patrwm, ac mae'r ansicrwydd 'na o wynebu arholiadau, ac i ryw raddau, dwi'n meddwl bod plant wedi arfer efo'r patrwm asesu sy'n ei le yn yr ysgol... maen nhw'n deall system o waith cwrs, maen nhw'n deall y system o eistedd arholiad ar ddiwedd modiwlau neu ar ddiwedd blynyddoedd. A mwyaf sydyn, mae popeth wedi mynd, ac mae'r mesurydd yna, sef yr arholiad ar y diwedd, wedi cael ei dynnu oddi arnyn nhw. Dwi'n meddwl, o siarad efo'r ddau, ac efo Twm yn enwedig, dwi'n meddwl bod ei bryder o, neu'r ansicrwydd, yn dod o'r ffaith nad ydy o bellach yn gwybod sut mae o'n mynd i

gael ei fesur, sut mae o'n mynd i gael ei radd – os ydy hynny'n mynd i ddeillio o waith cwrs, ydy o'n deillio o sut mae o wedi bod yn y dosbarth, math yna o beth. Felly, mae o'n andros o her iddyn nhw, dwi'n meddwl, ac mae o'n gyfnod lle maen nhw'n boenus iawn eu byd.

Betsan: Felly, yng nghanol yr holl ansicrwydd, ydy Twm wedi bod yn trio cofio sut mae wedi gwneud yn y gwaith cartref? Oes 'na unrhyw mocs, profion? Oedd 'na drïo darllen wynebâu athrawon, os ydy e wedi eu gweld nhw o gwbl?

Rowenna: Be sydd wedi bod yn anodd i blant Blwyddyn 11 yn benodol ydy nad ydyn nhw wedi cael y cyswllt mae'r blynyddoedd eraill, o bosib, wedi ei gael yn yr ysgolion, o ran y galwadau ffôn yn gwirio, a hefyd wrth gwrs, mae 'na rai plant wedi cael cyfnod o fynd yn ôl i'r ysgol, boed am ddiwrnod neu ddau. Dydyn nhw ddim wedi cael hynna, wedyn dwi'n meddwl bod yr ansicrwydd hyd yn oed yn fwy brawychus iddyn nhw, gan nad ydyn nhw wedi cael y cyfleoedd 'na i gael y sgysiau 'na efo'r athrawon. Dim o ran bod angen gwneud unrhyw beth academiaidd, wrth gwrs, ond o ran y cyswllt lles, a gwirio bod nhw ddim yn pryderu gormod. Mae o wedi bod yn meddwl beth wnaeth o llynedd, wrth gwrs, achos mae 'na ran o'i gyrsiau fo - y Gwyddoniaeth a Hanes a Cymraeg a Saesneg. Mae o wedi eistedd canran go lew o'r pynciau yna yn barod, rhwng arholiadau a gwaith cwrs, felly mae ganddo fo well syniad yn y pynciau yna, o bosib. Ond dwi'n ffeindio ei fod o'n poeni am bethau bach gwirion, fel rhyw un darn o waith nad ydy o wedi ei orffen, ac mae o ofn ei fod o'n mynd i gael ei farcio i lawr oherwydd rhywbeth felly. Ond yn gyffredinol, 'dan ni'n trio dweud wrtho fo - yng nghyd-destun pob dim, bydd pob dim yn iawn, a fydd o'n iawn dwi'n siŵr - gobeithio.

Betsan: Beth fyddai wedi helpu, Rowenna? Beth fyddai wedi gwneud eich bywyd chi fel rhiant yn haws? Beth fyddai wedi gwneud bywyd Twm yn haws? Dwi'n siŵr bod pawb yn cydymdeimlo bod dim bai ar neb, bod 'na sefyllfa mor anodd wedi codi. Ond unwaith i'r sefyllfa honno godi, ac inni ddechrau dod i arfer â hi, beth fyddai wedi helpu i wneud bywyd yn haws?

Rowenna: Yn gyntaf oll, mae eisïau cydnabod bod yr ysgolion wedi ymateb yn dda, ac maen nhw wedi delio gyda'r heriau fel maen nhw'n dod. Beth sydd wedi bod yn anodd ydy bod y datganiadau yn dod, ac mae'r ysgol yn gorfod ymateb yn syth wedyn, felly does 'na ddim llawer o amser wedi bod iddyn nhw fedru cynllunio ar gyfer beth fyddai orau. Dwi'n meddwl eu bod nhw wedi gorfod rhedeg ar ôl eu cynffon, yn ymateb i beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Ond yn bersonol, beth fyddai wedi helpu ydy cydnabod, er bod Blwyddyn 11 wedi gorffen eu gyrfa ysgol, eu bod nhw dal yn garfan ac yn gohort o blant. Maen nhw wedi anghofio amdany'n nhw i bob pwrpas, achos bo nhw ddim yn siŵr iawn pwy sy'n mynd yn ôl i'r ysgol, pwy sy'n mynd i'r coleg. Nhw ydy'r flwyddyn, allan o bob blwyddyn ysgol, sydd ddim wedi derbyn y gwirio, a sydd ddim wedi derbyn y gefnogaeth ehangach 'na - fel eu bod nhw mewn rhyw 'void' achos bo nhw rhwng dwy stôl. Rhwng Lefel A neu goleg neu fynd i waith neu wneud prentisiaeth neu rywbeth felly, a does 'na neb bron yn cymryd cyfrifoldeb na pherchnogaeth ohonyn nhw, ym Mlwyddyn 11. Byswn i wedi licio gweld, boed o'n rhywun - boed o'n yr ysgol neu eu bod nhw wedi penodi pobl bwrpasol, bod 'na fwy o gefn i'r cohort yna.

Betsan: Mae hynny mor ddiddorol, Rowenna - achos mae gen i blant ym Mlwyddyn 10 a 12, a dyna lle roedden nhw'n eiddigeddu wrth y plant yn y blynyddoedd hyn - gan feddwl, "Grêt! Dy'n nhw ddim wedi gorfod gwneud eu harholiadau. Mae bywyd yn hawdd iddyn nhw. Haf braf nawr. Dy'n ni ddim yn gwybod ble ry'n ni'n sefyll. Wrth gwrs - dyna ddangos bod rhieni a phlant yn mynd i deimlo eu bod nhw o dani, a ddim wedi ystyried - o'ch safbwynt chi a Twm - y teimlad hwnnw - eu bod nhw i bob pwrpas wedi gadael, a neb yn siŵr pwy sy'n dod nôl, a felly bod hwythau hefyd â'r un fath o heriau. Mae'n heriol yn bobman, yn dydy?

Rowenna: Ydy, a'r elfen gymdeithasol hefyd, dwi'n meddwl - y Prom a'r pethau bach 'na sy'n digwydd ar ddiwedd gyrfa ysgol. Mae Twm yn ffodus. Os fydd o'n mynd yn ôl, fydd o'n mynd yn ôl i'r un ysgol. Mae 'na rai, wrth gwrs, sydd wedi gadael yr ysgol mewn ffordd ddisymwth fel hyn, a gadael ffrindiau. Ond maen nhw wedi colli allan ar brofiadau gymdeithasol hefyd, ac mae hynny'n anodd iddyn nhw achos mae o'n oed lle mae rhywun yn ffeindio'i draed yn gymdeithasol, ac maen

nhw'n dysgu sgiliau gwahanol i sgiliau gwaith ysgol, ac mae'r sgiliau yna'r un mor bwysig pan maen nhw'n mynd ymlaen yn eu bywydau.

Betsan: Yn bendant. Felly Rowenna, chi'n swnio'n andros o gall, ac wedi bod yn dweud wrth Twm am beidio â phoeni, a pheidio mynd i boeni am fân bethau, ond sut fyddwch chi'n wynebu'r ychydig wythnosau nesa 'ma nawr, a falle'r diwrnod mawr ei hun pan fydd Twm yn cael gwybod beth yw'r canlyniadau?

Rowenna: Peidio meddwl llawer amdany'n nhw, a dweud y gwir, fyddwn ni. A chario 'mlaen efo bywyd...

Betsan: Call iawn!

Rowenna: Mae o'n draddodiad efo'r mab hŷn, ac efo Twm llynedd. Byddwn ni'n cael y pryd bywyd a'r dathliad bob tro ar y noson cyn y canlyniadau, achos byddwn ni'n ymfalchïo bod y cyfnod wedi dod, a beth bynnag ydy'r canlyniad, dwi'n falch iawn ohono fo, bod o wedi eu heistedd nhw. A hyd yn oed os ydy o ddim yn arholiad ei hun tro 'ma, mae o dal wedi eistedd ei flwyddyn, er y flwyddyn ryfeddaf inni ddod ar ei thraws hi, mae o dal wedi cwblhau ei gwrs, felly mae'r balchder 'na yn dod noson cyn y canlyniadau fan'ma, ac wedyn bydda' i'n trio gwneud yn siŵr nad ydy o ddim yn poeni am y canlyniadau, achos byddwn ni wedi dathlu, ac wedi cael amser bach i feddwl ac ymfalchïo yr adeg hynny. Mae 'na bethau pwysicach na graddau ar ddiwedd y dydd, yn does?

Betsan: Mae hwnna'n gyngor doeth iawn, Rowenna. Dwi'n mynd i fabwysïadau'r syniad 'na. Dwi'n lico'r syniad o swper y noson gynt i ddiolch iddyn nhw am y gwaith, felly, a dathlu bod y foment wedi cyrraedd, yn hytrach na'r canlyniadau.

Rowenna: Mae'n garreg filltir, yn dydy? A dwi'n meddwl, ar ddiwedd y dydd, mae'n anodd bod yn 16 ac yn 17, a dwi'n meddwl bod o'n iawn cydnabod y garreg filltir yna. A hefyd, 'dan ni ddim yn diolch iddyn nhw weithiau, ac mae hynna'n gyfle bach i fedru diolch iddyn nhw hefyd.

Betsan: Felly byddwn ni'n croesi bysedd drostyn Twm, a gobeithio gallu cael sgwrs fach arall i gael clywed sut aeth y swper, a sut aeth y canlyniadau. Ond tan hynny, diolch yn fawr iawn i chi.

Betsan: Wel, diolch yn fawr i Twm a Rowenna am rannu tipyn bach o'u profiad nhw, a'r math o bethau sy'n codi rhywfaint o gwestiynau ac ansicrwydd ar hyn o bryd, yn anochel. Ond i gynnig atebion a sicrwydd, neu'r nesaf peth sy'n bosib, o leiaf, yn ymuno â fi mae Aled Roberts o Gyrfa Cymru sydd wedi hen arfer cyngori pobl ifanc ar eu camau nesaf. Croeso, Aled.

Aled: Diolch yn fawr.

Betsan: A Claire Roberts, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Cymwysterau Cymru. Y corff sydd, o bosib, wedi cael y gwaith cartref anoddaf un dros yr haf, sef pennu sut i roi'r canlyniadau tecaf i ddisgyblion Lefel A a TGAU. TGAU sy'n cyfri heddiw - Twm a Rowenna - sydd ddim, wrth gwrs, wedi gwneud eu harholiadau. Felly Claire, sut aethoch chi ati?

Claire: Yr hyn oedd yn bwysig i ni oedd i wneud y peth cywir. Amseroedd eithriadol yn galw am fesurau eithriadol. Ac mae hyn yn dystiolaeth o hynny. Beth oedd yn bwysig i ni, felly, oedd sicrhau bod dysgwyr yn cael eu graddau er mwyn iddyn nhw symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywydau, bod hynna'n astudiaeth bellach, yn hyfforddiant neu'n gyflogaeth. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr o wledydd eraill, fel Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond mae'r broses 'dan ni wedi penderfynu arni, y broses safoni, yn wahanol. Rydyn ni wedi gweithio gyda CBAC hefyd, wrth iddyn nhw greu system safoni, a chyrrff dyfarnu eraill, wrth i ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol, dderbyn eu graddau yn haf 2020. Mae'n siŵr bod lot o bobl wedi clywed am y broses safoni. Beth yw safoni? Mae safoni'n berthnasol i'r cymwysterau TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau, a Bagloriaeth Cymru. Felly mae pob ysgol a choleg sy'n cynnig y

cymwysterau yna wedi darparu gradd asesu canolfan, a threfn restrol i CBAC ar gyfer pob pwnc a phob dysgwr. Er mwyn safoni'r graddau, bydd CBAC yn defnyddio'r wybodaeth hon sydd wedi cael ei darparu gan ysgolion a cholegau, ac yn defnyddio tystiolaeth ystadegol arall, ac wedyn yn safoni'r radd. Mae dau gam i safoni. Yn fras, Cam 1 yw cyfrifo, felly mae CBAC yn cyfrifo cyfres o raddau i bob pwnc ym mhob ysgol, coleg, gan ddefnyddio un o ddau fodel. Mae pa fodel sy'n cael ei ddefnyddio yn ddibynnol ar y math o gymhwyster, os oes 'na asesiadau cyson dros y ddwy flynedd, neu os ydy'r asesiadau jyst ar ddiwedd y cwrs a'r cymhwyster. Gyda Cam 2 - dyrannu, dyma lle mae CBAC yn dyrannu cyfres o raddau o Gam 1 i ddysgwyr unigol, gan ddefnyddio'r drefn restrol a ddarparwyd gan yr ysgol neu goleg.

Betsan: Felly alla'i feddwl, Claire, y byddai rhai pobl ifanc a rhieni (yn sicr yn tŷ ni!), wedi gweld y stori o'r Alban ynglŷn â'r canlyniadau yno, ac mae'r system addysg yn gyfan gwbl wahanol yn yr Alban - nifer o bethau'n wahanol. Ond mae'n debyg mai gweld y pennawd y bydden nhw wedi gwneud, a'r pennawd hwnnw'n dweud bod cryn nifer wedi cael eu gwrthio i lawr o un canlyniad i'r llall, o un radd i radd is, a nifer o bobl ifanc ddigon digalon yr olwg yn yr eitemau newyddion a.y.y.b. yn dweud eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw wedi disgwyl, dywedwch - 'C', a chael 'D'. Hynny yw, nid felly mae yr Alban, ond dwi'n cymharu â ni yma. Felly, ai'r criw bach 'na ar y ffin sy'n mynd i fod mwyaf nerfus, â'r mwyaf i boeni amdano falle? A mwy o gwestiynau i'w holi yn y pen draw?

Claire: 'Dan ni yn teimlo bod y system yn ddigon da i weld trwy rhai o'r pethau mae pobl yn poeni amdanynt nhw. Ond beth welwn ni, bydd y mwyafrif o'r dysgwyr yn cael y graddau roedden nhw'n eu disgwyl, a bydd 'na rai efallai'n gwneud yn well, a rhai yn gwneud ychydig bach yn waeth. Byswn i'n dweud - mae'n dda i ddarllen ac i glywed barn am wledydd eraill, ond wedyn i edrych ac i ddeall y broses, ac wedyn i gwestiynu pam mae'r radd wedi dod, ac wedyn mae 'na le - os ydy dysgwyr dal yn anhapus gyda'r radd maen nhw wedi ei chael, bod 'na gyfle wedyn i drafod gyda'r ysgol neu'r coleg, ac i drafod os oes modd apelio, os ydy'r ysgol a'r ganolfan yn teimlo bod 'na ddigon o dystiolaeth gennyn nhw, ac wedyn mae 'na broses i fynd â hynny ymlaen.

Betsan: Bob amser, nid yn unig nawr, yr amser eithriadol yma, darllenwch fwy na'r pennawd. Achos o ddarllen y stori'n gyfan, a ry'ch chi'n rhyw weld... bod y sefyllfa yn yr Alban, bod 'na godiad bach wedi bod ar y canlyniadau llynedd. Ond Aled - mae pobl yn naturiol yn mynd i boeni, mae eu rhieni nhw'n mynd i boeni am yr wythnosau nesaf. Oes 'na bethau call i'w gwneud, a phethau i'w hosgoi?

Aled: Yn bendant. Hynny yw, fel dywedodd y fam yn gynharach - Rowenna - mae wedi bod yn gyfnod heriol i bob un; hynny yw - rhieni, y disgyblion, a bydden i hefyd yn dweud yr athrawon. A falle, does neb mewn lle gwell i fedru dweud, a rhoi gwybodaeth, na'r athro sydd gyda'r plentyn o ddydd i ddydd ac maen nhw'n gwybod lle maen nhw'n mynd i gyrraedd. O ran sut i baratoi, beth i edrych amdano o ran y cam nesaf, mae gyda ni yn Gyrfa Cymru Ymgynghorydd Gyrfaoedd ynghlwm â phob ysgol a choleg yng Nghymru. A beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ydy targedu disgyblion o Bl.9, yn enwedig Bl.10, a gwneud holiadur arbennig, sef Gwirio Gyrfa, lle 'dan ni'n cael y disgyblion i ddechrau meddwl. Felly erbyn eu bod nhw'n bwrw Bl.11 mae gyda ni fel Ymgynghorwyr Gyrfaoedd, syniad go dda o'r rheini beth yw'r dyheadau, pa rai sy'n realistig o ran syniadau, ac wedyn yn cyd-drafod efo'r ysgol i weld... reit, mae 'na rai falle byddwn ni'n ymwybodol bod angen iddyn nhw ymroi ychydig bach mewn rhai pynciau, a 'dan ni'n rhoi cyngor diduedd wedyn i'r disgyblion yma yn ystod Bl.11. Felly, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Bl.11 yng Nghymru wedi cael rhyw fath o fewnbwn yn barod gennyn ni o ran meddwl am beth i'w wneud o ran y camau nesaf. Yn amlwg, fe ddaeth y COVID 'ma yn gynnwys yn y flwyddyn, felly ein rôl ni nawr ydy sicrhau bod yr wybodaeth yn mynd allan, a bod pawb sy'n mynd i fod yn cael canlyniad, yn ymwybodol o beth fydd yr opsiynau. Hynny yw, y rheini fydd yn edrych i ddod nôl i'r Chweched Dosbarth, mi fydd y rhan fwyaf o'r rheini gobeithio wedi bod yn siarad gyda'r ysgol, wedi bod yn siarad gyda phenaethiaid y Chweched Dosbarth, ac yn gwybod yn union y pynciau i ddewis, ac yn gwybod yn union lle maen nhw am fynd gyda'r pynciau yna. Mae 'na rai falle fydd yn edrych ar y coleg, byddan nhw'n gwybod - os ydyn nhw am wneud cwrs Lefel 3, beth fydd angen iddyn nhw gael o ran TGAU (5 C fel arfer). Falle rhai sydd am fynd ymlaen i wneud pethau mwy galwedigaethol

yn y coleg - cyrsiau Lefel 2 i gychwyn - maen nhw'n ymwybodol bod rhaid iddyn nhw gael falle 4 gradd D. Ond mae'r pynciau craidd yn mynd yn fwy a mwy pwysig. Felly ein neges ni dros y flwyddyn ddiwethaf 'ma ydy, fel pob blwyddyn arall, paratoi ar gyfer yr opsiwn nesaf, ond hefyd fod 'na gynllun wrth gefn rhag ofn.

Betsan: Ie, dyw e ddim yn gorfod bod yr opsiwn sydd wedi bod yn eich meddwl chi, yn enwedig ar hyn o bryd. Mae'n werth ystyried unrhyw opsiynau eraill sydd o gwmpas, yn dydy? Ac mae'n anodd gwneud hynny weithiau, Aled, yn dyw hi? Yn enwedig pan dy'ch chi ddim yn siŵr - fel roedd Twm yn dweud: "Dwi'n ansicr." Pan mae rhywun wedi sefyll arholiad, mae 'da nhw ryw deimlad yn eu bol sut maen nhw wedi gwneud. Mae hwnnw wedi mynd. Nifer o bobl ifanc fyddai wedi rhoi eu pen i lawr am y mis olaf a gweithio'n galed. Mae'r cyfle yna wedi mynd. Mae'n anochel eu bod nhw'n mynd i deimlo'n ansicr. Beth fydd y canlyniadau? A gân nhw yn eu llaw, neu mewn e-bost, neu sut bynnag fyddan nhw'n ei gael e felly, bod nhw'n teimlo'n ansicr. Meddwl yn lletraws ydy'r cyngor felly, ie? Meddwl beth yw'r holl opsiynau posib i'w hystyried?

Aled: Yn bendant. Dyw'r flwyddyn yma erioed wedi digwydd o'r blaen, a gobeithio wnaiff hi dim digwydd eto! Ond mae angen nawr, yn y cyfnod yma, cymryd pwyll.. dwi'n sôn am y rhieni a'r disgyblion, ac edrych falle ar y camau nesaf, a falle i'r unigolyn, i wybod yn bendant. Hynny yw, roedd Twm yn sôn ei fod o am fynd 'mlaen i'r Chweched Dosbarth - bod e moyn gwneud Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Mathemateg, a bod e moyn edrych ar lwybrau sy'n ymwneud â Meddygaeth neu Biocemeg. Mae'r dewisiadau yna'n grêt. Bydden i'n awgrymu nawr ei fod e'n gwybod pa lefel mae angen iddo fe fwrw flwyddyn nesaf, y flwyddyn ar ôl hynny, er mwyn mynd mewn ac ymlaen i brifysgol i astudio Meddygaeth, ei fod e'n edrych ar wefannau prifysgolion fel Russell Group. A hefyd mae 'na gefnogaeth yn mynd i fod yn yr ysgolion gan Gyrfa Cymru.

Claire: Ac os nad yw'r canlyniadau fel y disgwyliwyd, mae disgwyl i'r dysgwyr siarad gyda'u hysgol neu goleg am bob opsiwn. Ond hefyd, 'dan ni'n dal i gynnal cyfres o arholiadau ym mis Tachwedd mewn TGAU ar gyfer Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg Rhifedd, Cymraeg Iaith. Mae rheina'n parhau fel arfer. Ac mae'n bwysig cofio hynna, a bydd pob cymhwyster arall ar gael haf nesaf, felly mae hynna yna fel opsiwn.

Betsan: Ie, y ffiniau pwysig 'na. Felly Claire, chi wedi mynd â ni i'r diwrnod ei hun. Fel o'n ni'n trafod, dy'n ni ddim yn siŵr sut bydd y diwrnod hwnnw'n edrych. Falle fymryn yn wahanol o ysgol i ysgol, o un pen o Gymru i'r llall. Mae nifer, mae'n debyg, yn mynd i gael eu canlyniadau'n gynnar, Claire? A nifer yn mynd i'w cael nhw'n gyfrifiadurol, ie?

Claire: Yn union. Bydd pob ysgol a choleg yn rhannu'r canlyniadau gyda'u dysgwyr ar ôl 8 o'r gloch y bore, yn electronig eleni. Ond mae nifer o ysgolion a cholegau ar agor, yn rhoi cyngor fel roedd Aled yn sôn, ac os ydy pobl wedi gwneud yn well, neu fel roedden nhw'n disgwyl, neu os ydyn nhw angen bach mwy o gyngor - "dwi ddim yn hapus, beth yw'r camau nesaf? Beth yw'r opsiynau gyda'r graddau dwi wedi eu cael?" Felly bydd trafodaethau a'r bobl gywir yna i gael y sgysiau yna gyda'r dysgwyr a'r rhieni hefyd, felly gwnewch y gorau a manteisiwch ar y cyngor yna sydd ar gael.

Betsan: Beth os y'ch chi'n anhapus â'ch gradd, ac yn teimlo y dylech chi fod wedi cael gwell gradd, y medrech chi fod wedi cael gwell gradd? Bod yr athrawon... ry'n ni wedi dweud tipyn am y gwaith caled mae athrawon wedi gorfod ei wneud. Maen nhw wedi bod mewn sefyllfa andros o anodd.. bod nhw'n gorfod dweud, "Drycha, ar y dystiolaeth sydd gen i," ac roedd hynny'n hollbwysig eleni, "y radd deg i fi roi oedd hyn, felly alla'i ddim cefnogi apêl." Ond os yw'r disgybl a'r rhieni'n dal i deimlo bod 'na rywbeth yn cnoi, ydyn nhw'n medru gwneud rhywbeth eu hunain?

Claire: Ydyn. Os oes gynnyn nhw ddigon o dystiolaeth. 'Dan ni'n teimlo hefyd, ac yn cydnabod bod pryderon gan rai dysgwyr am eu gradd, ac felly 'dan ni'n gweithio gyda cyrff dyfarnu, ac yn benodol ar gyfer TGAU, gyda CBAC, i wneud y broses apelio mor ddiffwdan â phosib. Ac felly mae gan CBAC linell gyngor ar ganlyniadau, ac mae gynnyn nhw gyfeiriad e-bost; ac mae hwnna ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener rhwng 9 a 5 i gefnogi, ac i roi mwy o wybodaeth ar beth yw'r drefn

apelio. Ac felly mae hynna'n bosib i'w wneud. Ond y cam cyntaf fyse trafod gyda'r coleg a'r ysgol i weld beth yw eu cyngor nhw.

Betsan: A gwnawn ni roi'r manylion 'ma i gyd ar y diwedd, os ydy pobl yn gwrando, os yw pobl eisiau cofnodi - mi wnawn ni hynny ar ddiwedd y bennod hon o'r podlediad. Aled, ewch chi â ni at y diwrnod ei hun. Chi wedi bod trwy ddigonedd ohonyn nhw ar hyd y blynyddoedd - yno i gynghori ac i fod yn gefn. Er, fel ry'ch chi'n dweud, mae'r gwaith hefyd wedi ei wneud o flaen llaw. Ond ar y diwrnod ei hun, dewch â tipyn bach o tips i bobl ifanc a'u rhieni ynglŷn â sut i ymateb ar ddiwrnod y canlyniadau...

Aled: Y peth pwysig yw, pan fod y canlyniad yn dod, ac mae eleni, fel ro'ch chi'n dweud yn gynharach, maen nhw'n mynd i gael y rhan fwyaf ohonyn nhw drwy e-bost yn gynnar yn y bore. Mae 'na ambell i ysgol yn mynd i roi nhw allan. Y peth pwysig i'w wneud ydy peidio mynd i banig am ddim byd, a gwneud yn siŵr bod pawb yn ymwybodol o ble fedran nhw droi os ydyn nhw angen cymorth. Mi fydd Gyrfa Cymru ar gael ar y diwrnod. Mi fyddwn ni mewn rhai ysgolion, mi fyddwn ni ar gael un ai ar y ffôn, ar y we, mi fydd gwefan Gyrfa Cymru yn barod i ymateb i unrhyw gwestiwn fydd gan unrhyw un ynglŷn â chanlyniadau, ddim yn sicr beth i'w wneud gyda'r cam nesaf. Y peth pwysig yw, ar y diwrnod, a falle, i nifer o bobl, drwy siarad efo'r ysgol, mi fydd 'na rai falle yn gobeithio dod nôl i'r Chweched, falle ddim cweit wedi taro'r nod. Wedyn, gobeithio bod yr opsiwn wrth gefn gyda nhw, boed hwnnw'n goleg, edrych i fynd i gael hyffordddeaeth, chwilio am brentisiaethau, yn amlwg yn y cyfnod yma, mae'n mynd i fod yn gystadleuol iawn allan yn y maes gwaith. 'Dan ni'n gwybod hynny gyda phrentisiaethau - mae 'na ansicrwydd am faint fydd ar gael. Ond mi fydd 'na brentisiaethau ar gael. A falle hefyd i bobl ddechrau meddwl... edrych ar gynllun byrdymor, fydd yn gallu helpu'r cynllun hirdymor. Felly i rai pobl, falle byddai mynd i goleg, edrych ar wneud cwrs Lefel 2, gweithio i fyny i Lefel 3, ac wedyn falle mynd ymlaen i fyd gwaith neu fynd ymlaen i brifysgol, bod hynny'n rhywbeth gellir ei wneud. Ond beth 'dan ni'n gallu ei wneud fel cwmni - 'dan ni fel Gyrfa Cymru yn rhoi cyngor sy'n hollol ddiuedd ynglŷn â'r opsiynau, felly 'dan ni ddim ar gomisiwn i gael disgyblion i ddweud, "Reit, dewch 'nôl i'r ysgol." Byddwn ni'n edrych ar bob un yn unigol, a phwyso a mesur a helpu gyda'r penderfyniad. Edrych ar y 'pros a'r cons' i wneud penderfyniad da fydd wedi ei wneud gyda digon o wybodaeth. Ond ar y diwrnod ei hun mi fydd 'na gymorth ar gael, mae hynny'n mynd i fod yn sicr, fel sydd wedi bod dros y blynyddoedd. Mae angen i'r disgyblion, falle ar y dydd Iau, dim rhuthro i benderfyniad, falle cael ychydig bach o gyngor ar y dydd Iau; eto, falle ar y dydd Gwener ar ôl y canlyniad. Mae nifer o ysgolion - dyna pryd falle byddan nhw'n edrych i siarad mwy gyda disgyblion ynglŷn â'r rhai sydd eisiau dod nôl i'r Chweched - beth yw'r broses. Bydd y colegau ar agor ar ddiwrnod canlyniadau, a'r diwrnod ar ôl hynny. Felly eto, mi fyddan nhw'n barod i glywed oddi wrth bobl fydd am gysylltu. Felly, byddwn i'n dweud wrth bobl i beidio â phryderu ynglŷn â'r diwrnod, achos mae 'na gefnogaeth, mae 'na ddigon o gefnogaeth yn mynd i fod allan yna, gan nifer o asiantaethau, gan y colegau, gan bobl fydd yn gallu rhoi'r cymorth yna. Ac ar y diwedd, wnawn ni roi'r manylion, y gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol i bawb i helpu gwneud penderfyniad gwybodus. A dyna fyrdwn neges Gyrfa Cymru - bod disgyblion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus wedi ei seilio ar wybodaeth gadarn.

Claire: A hefyd i sicrhau bod dysgwyr a'u rhieni'n deall bod prifysgolion, colegau addysg bellach a chyflogwyr yn mynd i drin y cymwysterau 'ma eleni yr un peth â rhai llynedd a'r blynyddoedd cynt hefyd. Felly dydyn nhw ddim yn dweud, "Www, y flwyddyn anodd 'na!" Na - mae'r un statws i'r cymwysterau yma a'r canlyniadau 'ma eleni hefyd.

Betsan: Ydyn ni'n siŵr o hynny, Claire? Dwi'n gwybod eich bod chi'n dweud hynny achos bod gwaith caled wedi ei wneud gan bobl fel chithau i sicrhau bod safoni'n digwydd, felly bod dim lle i bwyntio bys. Ond ry'n ni wedi siarad gyda tipyn o rieni sydd falle'n anochel yn mynd i ddweud, "Ydy pobl rhyw ddydd yn mynd i ddweud, o ie, y flwyddyn fach 'na - blwyddyn corona - fu dim rhaid i chi wneud arholiadau, naddo?" Ydy hynny'n mynd i barhau?

Claire: Dwi'n cofio nhw'n dweud rhywbeth tebyg pan o'n i'n yr ail flwyddyn yn gwneud TGAU - "TGAU blwyddyn gyntaf - byddan nhw'n rhoi graddau hawdd i bawb." Mae pobl yn mynd i ddweud pethau fel 'na - roedd o'n hawdd pasio ar y flwyddyn gyntaf. Ond ar ddiwedd y dydd, mae pawb eisiau i ddysgwyr allu symud ymlaen i'r cam nesaf. A'r hyn 'dan ni wedi ei glywed gan UCAS, prifysgolion Cymru, yw bod y prifysgolion yn trin eleni union yr un peth ag unrhyw flwyddyn arall.

Betsan: Am wn i, ni wedi dweud drosodd a thro, a dyna bwrpas podlediad fel hwn - eleni'n arbennig - yw ei bod hi'n flwyddyn eithriadol, a dyna lle ddechreuon ni. Felly Aled, yn y cyfnod 'ma o ansicrwydd, un peth dwi fel rhiant yn ei synhwyro, yw'r angen i ddweud wrth fy mhlant i, sy'n wynebu blwyddyn gyntaf TGAU, blwyddyn gyntaf Lefel A: "Drychwch - falle bod gyda chi syniadau pendant iawn wedi bod yn eich pen ynglŷn â ble oeddech chi eisiau mynd," (byswn i'n dweud hynny am un yn fwy na'r llall yn tŷ ni - y llall ddim eto'n siŵr a.y.y.b.) Ond bod y syniad 'ma bod y byd yn newid, bod 'na ansicrwydd, pwy a ŵyr beth fyddan nhw'n ei wynebu yn y pen draw. Felly ydy ystyried 'Pa sgiliau sydd gen i? Sut allen i ddefnyddio'r rheini yn y byd fydd ohoni?' Ai fel 'na mae eisiau meddwl am y peth, yn hytrach na 'Dyma beth dwi'n mynd i'w wneud!'

Aled: Yn bendant. Pwysigrwydd y sgiliau trosglwyddadwy 'ma. Mae'n fwy pwysig nag erioed bod pobl ifanc yn sylweddoli beth yw'r sgiliau 'ma, o ran symud ymlaen; nid yn unig yn academiaidd, ond hefyd yn y dyfodol i fyd gwaith. Sgiliau gweithio mewn tîm, cyfathrebu, sgiliau'r iaith Gymraeg, er enghraifft. Mae'r rheina'n sgiliau sy'n gallu cael eu trosglwyddo o un maes i'r llall. Felly, bod yn fwy ymwybodol o bethau fel 'na. Ac eto, fe allwn ni, Gyrfa Cymru, helpu gyda hynny. Mae gyda ni wybodaeth, mae gynnon ni sesiynau 'dan ni'n eu gwneud, a 'dan ni'n ddigon hapus i drafod un wrth un efo'r disgyblion i allu adnabod rhain. Y peth pwysig nawr yw bod disgyblion Bl.11 yn edrych mwy at sectorau sy'n mynd i ffynnu yn y dyfodol; achos yn amlwg ar hyn o bryd mae 'na lot o sectorau sydd mewn trafferthion, ac mi fyddan nhw mewn trafferthion am flynyddoedd. Mae gyda ni, ar ein gwefan, wybodaeth y farchnad lafur. Lle fydd y swyddi 'ma? Pa sectorau? Pethau fel technoleg, maes cyfrifiadurol, maes iechyd; fel bod y bobl yn gwybod beth fydd gofynion y sectorau yma, a beth yw'r gofynion o ran cymwysterau. Ac ar ddiwedd Bl.11, wrth fynd trwy Bl.11, mi ddylai disgyblion fod yn dechrau meddwl am y cam nesaf. Ydy e'n mynd i fod yn gam academiaidd? Neu ydw i eisiau mynd i wneud rhywbeth mwy ymarferol? Ydyn nhw'n edrych ar addysg amser llawn? Neu falle bo nhw moyn mynd allan i'r gweithle a dysgu yn y gweithle. Pa mor bwysig yw eu bod nhw'n gallu gwneud gwaith theori, neu ryweth ymarferol? Wrth edrych ar y Chweched, maen nhw'n edrych ar Lefel A, mae rhai ysgolion a cholegau'n cynnig cyrsiau BTEC. Felly ife gwaith cwrs? Neu ydyn nhw'n edrych mwy ar sefyll arholiadau? Dyna'r teip o bethau sydd angen iddyn nhw feddwl. Ac am y cam nesaf, edrych ar y Chweched neu'r coleg. Oes gwir ddiddordeb gyda nhw yn y cwrs yna? Beth yw e am y cwrs yna sy'n eu denu nhw? A bod y lefelau'n iawn. O'n i'n sôn yn gynharach ynglŷn â'r cam nesaf - falle bod rhai ddim yn mynd i fwrw 5 neu 6 C i ddod nôl i'r Chweched. Bod nhw'n edrych wedyn bod cwrs Lefel 3 mewn coleg falle'n gam rhy bell. Felly cymryd Lefel 2 am flwyddyn, cyn symud ymlaen i Lefel 3. Dyna beth fyddwn ni'n gallu cynghori, a hefyd edrych ymlaen ar gyfer eich dyfodol, bod y gofynion mynediad gyda chi wrth symud lawr y llwybr gogyfer y dyfodol.

Claire: Yn sicr. I ddweud y gwir, mae'r sefyllfa eleni wedi gwneud i ni feddwl am y drefn o eistedd arholiadau a chynnwys y cwrs. Ac mae gynnon ni waith ar hyn o bryd sy'n edrych i mewn i sut mae'r cymwysterau'n gweddu i'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae hyn wedi gwneud i ni feddwl yn fwy ynglŷn ag asesu, ac efallai ein bod ni'n cyflwyno mwy o asesu parhaus dros y ddwy flynedd TGAU a Lefel A, yn lle ffocysu gormod ar arholiadau ar y diwedd. Ac wrth i ni symud ymlaen, 'dan ni wedi profi bod dysgu cyfunol yn bosib, a dwi'n meddwl bydd ysgolion a cholegau'n gwneud bach mwy o hynna wrth i ni symud ymlaen hefyd. Felly mae pethau'n newid, ac efallai ein bod ni wedi cael ein gorfodi i newid. Ond dwi'n meddwl mai newid fydd pethau yn y dyfodol, ac wrth i ni symud ymlaen hefyd.

Betsan: Diddorol - bod profiad eithaf brawychus eleni, a "brawychus" oedd gair Rowenna fel mam, bod hwnnw yn arwain at bethau newydd a phethau positif - pwy a ŵyr, yn y dyfodol. Felly, diolch yn fawr i chi'ch dau. Beth am orffen gyda'r holl fanylion yna y byddech chi'n awyddus bod rhieni a'u

plant yn gwybod amdanyn nhw, ac yn gallu troi atyn nhw os byddan nhw eu hangen nhw wedi'r canlyniadau. Aled, beth amdanoch chi?

Aled: O safbwynt Gyrfa Cymru, mae gynnon ni wefan - gyrfacymru.llyw.cymru. Ar honna mae 'na lot o wybodaeth ynglŷn â sut i gynllunio gyrfa, beth yw'r opsiynau. Mae gynnon ni gwis fedrith pobl ifanc ei wneud, mae gynnon ni wybodaeth am bob swydd fedrwech chi feddwl amdani. A hefyd mae gynnon ni Cwis Paru Swyddi - mae hwnna'n un reit ddiddorol, ac mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn gwneud hynny'n barod yn yr ysgol - sef gweld a ydy eu sgiliau nhw'n gallu *matsho* efo beth fydd y diddordeb yn y dyfodol. Felly rhwng nawr a'r diwrnod, a hefyd ar y diwrnod ac ar ôl y diwrnod canlyniadau, fe allwch chi gysylltu gyda ni. Mae gynnon ni rif ffôn: 0800 028 4844. Ar y wefan hefyd allwch chi siarad yn fyw - 'Live Chat', a hefyd 'dan ni ar y cyfryngau cymdeithasol - Twitter, Facebook, sianel YouTube, a gallwch chi anfon e-bost hefyd i post@gyrfacymru.llyw.cymru <<mailto:post@gyrfacymru.llyw.cymru>>. Mae'r cymorth yna. A hefyd, byddwn i jyst yn cyfeirio at wefan Cymru'n Gweithio / Working Wales. Mae hwnna hefyd yn mynd i fod yn gymorth i nifer wrth iddyn nhw o bosib edrych ar fynd allan i fyd gwaith, hyfforddiant, beth bynnag. Ond gyrfacymru.llyw.cymru yw'r wefan. Mae'r wybodaeth i gyd ar honna.

Claire: Bydd pob ysgol a choleg yn rhannu canlyniadau gyda dysgwyr ar ôl 8 o'r gloch ar ddiwrnod canlyniadau, a byddan nhw'n derbyn y slipiau canlyniadau yr un ffordd â bob blwyddyn arall hefyd. Ond mae'n rhaid cofio, os nad yw'r canlyniadau fel y disgwylwyd, dylai'r dysgwyr siarad â'u hysgol neu goleg am bob opsiwn posib. Ac wedyn, wrth gwrs, cysylltwch gyda CBAC, os ydy o i'w wneud efo TGAU ar ddiwrnod canlyniadau, mae gynnyn nhw rif ffôn penodol, sef 02921 055441, a'r cyfeiriad e-bost yw diwrnodcanlyniadau@cbac.co.uk <<mailto:diwrnodcanlyniadau@cbac.co.uk>>. A hefyd, mae gan Cymwysterau Cymru ddigon o wybodaeth ar ein gwefan ni, sef cymwysteraucymru.org, ac mae Llinell Gymorth Canlyniadau CBAC ar agor rhwng 8 a 5 o'r gloch. Felly gwnewch y gorau o'r gwasanaethau yna, a hefyd mae gan Gyrfa Cymru ddigon o gymorth a chefnogaeth ynglŷn â chymau nesaf i ddysgwyr. Ond hefyd maen nhw yna i wrando ar bryderon rhieni. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd i bawb, a 'dan ni'n gwerthfawrogi'r gwaith caled gan y canolfannau, yr ysgolion a cholegau, a hefyd y dyfalbarhad gan y dysgwyr, wrth iddyn nhw dderbyn eu canlyniadau. A phob lwc i bawb wrth iddyn nhw symud ymlaen gyda'u cam nesaf.

Betsan: Diolch Claire ac Aled, a rhif ffôn CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau unwaith eto yw 02921 055441. Rhif Gyrfa Cymru yw 0800 028 4844, neu cysylltwch â nhw ar-lein trwy gyrfacymru.llyw.cymru. A pha beth bynnag fydd goblygiadau'r penawdau ynglŷn â'r canlyniadau Lefel A, pob lwc i Twm ac i bawb sy'n aros am eu canlyniadau TGAU. A phan lanian nhw, fe fydd pennod arall o 'Pa Opsiwn i Ti?' yn glanio hefyd - i gynnig cyngor, i gyd-drafod, a dwi'n mawr obeithio, i gyd-ddathlu.